# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Ebrill 2013 i'w hateb ar 17 Ebrill 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynaliadwyedd 'Cynllun Gwên'? OAQ(4)0250(HSS)

2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu'r gwasanaethau iechyd? OAQ(4)0247(HSS)

3. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau ar gyfer dyfodol gofal mewn ysbytai yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0256(HSS)

4. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sylfaen ariannol GIG Cymru, gan gyfeirio'n benodol at ranbarth Canol De Cymru? OAQ(4)0262(HSS)

5. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o hemoffilia yng Nghymru? OAQ(4)0253(HSS)

6. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r gofal a roddir i blant sydd â diabetes math 1? OAQ(4)0258(HSS)

7. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i gynnal o wasanaethau iechyd meddwl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0249(HSS)

**8. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo lles plant mewn gofal? OAQ(4)0260(HSS)

**9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau rheoli poen yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0248(HSS)

**10. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut yr eir i'r afael ag epidemig y frech goch yng Nghymru? OAQ(4)0263(HSS)

**11. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drefniadau sydd wedi eu gwneud ar gyfer gwasanaethau prostheteg i gyn-filwyr sydd yn dychwelyd i Gymru? OAQ(4)0261(HSS)**W**

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oedi o ran amseroedd aros ym Mhowys? OAQ(4)0245(HSS)

**13. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu negeseuon cadarnhaol am iechyd y cyhoedd? OAQ(4)0255(HSS)

**14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau a wnaiff y Gweinidog eu cymryd yn ystod 2013 i wella amseroedd ymateb ambiwlansys yng Nghymru? OAQ(4)0251(HSS)

**15. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer GIG Cymru am y chwe mis nesaf? OAQ(4)0254(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

**1. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer trechu tlodi yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0002(CTP)

**2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau tlodi plant Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0018(CTP)

**3. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i wella cyfle cyfartal i fenywod yn y gweithle? OAQ(4)0007(CTP)

**4. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl? OAQ(4)0003(CTP)

**5. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei opsiynau i gyflwyno rhaglen newydd yn lle'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol? OAQ(4)0001(CTP)

**6. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei amcanion allweddol ar gyfer trechu tlodi yn ystod gweddill y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0006(CTP)

**7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i helpu i liniaru tlodi plant yn sgîl diwygiadau lles? OAQ(4)0011(CTP)

**8. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â thlodi yn Nhorfaen? OAQ(4)0010(CTP)

**9. Mick Antoniw (Pontypridd):** Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag achosion tlodi yn ardal Pontypridd? OAQ(4)0009(CTP)

**10. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer cynorthwyo'r rhai sy'n ennill cyflog isel yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0013(CTP)

**11. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(4)0017(CTP)

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ystod 2013 i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru? OAQ(4)0005(CTP)

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r Cynllun Hawl Cymuned i Brynu? OAQ(4)0019(CTP)

**14. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am newidiadau mewn tlodi plant yn Ne Caerdydd a Phenarth ers 2010? OAQ(4)0016(CTP)

**15. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r mesurau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i leihau tlodi parhaus yng nghymunedau Canol De Cymru? OAQ(4)0020(CTP)